# Gwybodaeth am Fwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gaerfyrddin

## Y Gronfa

- Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gaerfyrddin yn daliad wedi'i gyllido'n llawn o hyd at £1,500 sydd ar gael i unrhyw unigolion yn Sir Gaerfyrddin dros 18 oed sydd â diddordeb mewn profi syniad busnes newydd.
- Rhaid i ymgeiswyr fynychu gweithdy cynllun busnes a drefnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin a fydd yn eu cynorthwyo i lunio cynllun busnes addas ar gyfer y cais am fwrsariaeth.
- Caiff ymgeiswyr eu hasesu'n rheolaidd fesul achos a bydd panel o'r tîm datblygu economaidd yn dyfarnu'r fwrsariaeth.

## Proses Gwneud Cais

Llenwch y ffurflen gais sydd ar y wefan:
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ymgysylltiad-busnes/bwrsariaeth-lansio-busnes-sir-gar/

Fel arall, gall y rheiny sydd â diddordeb lawrlwytho copi o'r ffurflen gais a'i hanfon i:
ymgysylltubusnes@sirgar.gov.uk

Yna bydd aelod o'r tîm ymgysylltu â busnesau yn cysylltu i gynnig gwahoddiad i wneud cais, trafod eich syniad busnes yn fanwl a dechrau eich cynorthwyo â'r cais.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais, gan roi dadansoddiad o wariant arfaethedig ynghyd ag enw'r cyflenwr/cyflenwyr a gwerthoedd unigol. Rydym yn annog pobl i ddefnyddio cyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin lle bynnag y bo modd.

**Meini Prawf Cymhwyster**

Mae bwrsariaeth lawnsio Busnes Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gynllunio ar gyfer cefnogi unigolion i rhoi gynnig ar profi eu syniad busnes ac felly, rhaid i ymgeiswyr cyrraedd y meini prawf canlynol:

1. Ddim yn barod i ddechrau gweithgareddau masnachu prawf heb gymorth ariannol
2. Dim profiad blaenorol NEU profiad cyfyngedig o hunangyflogaeth / masnachu prawf ond angen cymorth ariannol i ddatblygu gweithgareddau masnachu prawf ymhellach.
3. Ddim yn ymgymryd â gweithgareddau masnachu prawf yn ystod y broses ymgeisio ar hyn o bryd.
4. Ddim yn hunangyflogedig ar hyn o bryd- mae unigolion ag unrhyw statws cyflogaeth arall yn gymwys i wneud cais gan gynnwys cyflogaeth llawn amser.

## Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gaerfyrddin

## Telerau ac Amodau

1. Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gaerfyrddin yn daliad wedi'i gyllido'n llawn o hyd at £1,500 sydd ar gael i unrhyw unigolion yn Sir Gaerfyrddin dros 18 oed sydd â diddordeb mewn profi syniad busnes.

2. Rhaid cyflwyno cynlluniau busnes a rhagolygon ariannol, gan gynnwys rhagolygon llif arian am 12 mis, ynghyd â ffurflen gais wedi'i chwblhau. Rhaid cyflwyno'r rhain i'ch Swyddog Ymgysylltu â Busnesau penodedig ar neu cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, sef 30ain o mis Medi 2024. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

3. Ar ôl derbyn eich cais, byddwn yn eich gwahodd i'ch 'Gweithdy Dechrau Busnes' agosaf. Byddwn yn ceisio darparu ar gyfer eich amgylchiadau cyhyd â phosibl, ond sylwch na fydd eich cais yn cael ei brosesu nes eich bod wedi cwblhau gweithdy.

4. Bydd cynnig ariannol y Fwrsariaeth Lansio Busnes yn ddibynnol ar yr amodau canlynol: bydd 100% o'r dyfarniad yn cael ei ryddhau ymlaen llaw. Fydd yn ofynnol i ni dderbyn tystiolaeth o’r gwariant a’r gweithgareddau masnachu prawf. Fydd angen i’r wybodaeth yma gael eu darparu o fewn 2- 6 mis i ddyddiad dyfarnu’r fwrsariaeth, neu’r 30ain o Dachwedd 2024 (pa bynnag dyddiad sydd gynharaf).

5. Gellir gwneud cais am estyniad i'r cyfnod hwn gydag esboniad rhesymol. Phenderfynir ar achosion o'r fath yn ôl disgresiwn y tîm Datblygu Economaidd ond nid all y dyddiad fod yn hwyrach na'r 30ain o Dachwedd 2024.
6. Rhaid cwblhau pob cais a dyfarnu'r cyllid erbyn mis Tachwedd 2024.
7. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu newid dyddiadau'r cyllid am unrhyw reswm neu i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'r broses gyllido yn cael ei chynnal.

## Gwariant

Bydd y dyfarniad ariannol yn berthnasol i wariant cyfalaf a/neu refeniw sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr ganlynol:

**Gwariant cyfalaf:**

- Prynu offer newydd neu ail-law (peiriannau, offer arbenigol, ac ati).
- Caledwedd TG a thelathrebu os yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflawni'r prosiect.
- Prynu a gosod offer at ddibenion creu gofod masnachu, e.e. llochesi, gasebo, bwrdd masnachu, ac ati.
- Deunyddiau traul ar gyfer creu cynhyrchion.
- Stoc.

**Gwariant refeniw arbenigol:**

- Hyfforddiant arbenigol/technegol (nid yn achrededig o reidrwydd).
- Gwasanaethau ymgynghori arbenigol (wedi'u hasesu fesul achos).
- Ardystiad sicrhau ansawdd, e.e. ardystiad hylendid bwyd (wedi'i asesu fesul achos).
- Ardystiad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu aelodaeth Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Marchnad (taliad blynyddol untro yn unig).
- Datblygu gwefan ddwyieithog, datblygu e-fasnach a phrynu meddalwedd.

**Mae gwariant anghymwys yn cynnwys:**

- Gwariant refeniw cyffredinol megis costau staff neu unrhyw drethi eraill, hurbrynu/prydlesu.

- Ffioedd a chostau wrth gefn a gafodd eu hymrwymo neu eu talu cyn cynnig a derbyn y fwrsariaeth.
- Costau cyfalaf gweithio megis rhent, ardrethi, gweinyddu.
- Costau gwaith a wneir ar eiddo sy'n ofyniad statudol o dan y gyfraith, gan gynnwys caniatâd cynllunio.
- Ni ddylid gwario unrhyw arian cyn i'r fwrsariaeth gael ei chymeradwyo gan na ellir rhoi'r fwrsariaeth yn ôl-weithredol.

## Cysylltiadau

Mewnflwch Cyffredinol Ymgysylltu â Busnesau**:** ymgysylltubusnes@sirgar.gov.uk

Swyddogion Ymgysylltu â Busnesau:

Cathrin Jones – Caerfyrddin a'r ardal ehangach
Daniel Davies – Llanelli a'r ardal ehangach
Rhianydd Herdman – Rhydaman a'r ardal ehangach